



## **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Ionawr, 2015  
am 2.00yp yng Ngholeg Menai, Bangor**

### **PRESENNOL:**

Walis George, Grŵp Cynefin **(Cadeirydd)**  
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Jerry Hunter, Prifysgol Bangor  
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr /Iechyd  
Cyhoeddus  
Andy Jones, Prawf Cymru  
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn  
Cllr Dyfrig Siencyn Lewis, Cyngor Gwynedd (dirprwyo i Arweinydd  
Cyngor Gwynedd)  
Dilwyn Owen Williams, Cyngor Gwynedd  
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru **(Is-Gadeirydd)**  
Sian Purcell, Medrwn Môn  
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai  
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru  
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd  
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Ieuan Williams, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn

### **Hefyd yn bresennol:**

Geraint George, Cyngor Gwynedd  
Anwen Davies, Cyngor Gwynedd  
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd  
Gareth Hall, Prosiect Ynys Ynni  
John Idris Jones, Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Marian Jones, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Trevor Purt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Julian Sandham, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Bethan Jones, Cyngor Sir Ynys Môn.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 18FED RHAGFYR, 2014

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr, 2014 yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Materion yn codi:

- Rhoddodd Sioned Rees, Llywodraeth Cymru gyflwyniad i'r Bwrdd trwy ddiweddariad ar lafar ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai'r Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi ar 3ydd Chwefror, 2015 a Chysyniad Brenhinol yn Ebrill, 2015;
- Rhoddodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau ddiweddariad i aelodau'r Bwrdd ynglŷn â'r gofyn i gwblhau Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'i Gynllun Integredig Sengl (CIS) parthed 2014/15 a bod y paratodau bellach mewn llaw i ddiweddarau Cadeiryddion Byrddau Partneriaethau dros yr wythnosau nesaf;
- Cyngorodd y Cadeirydd iddo ef a'r Uwch Reolwr Partneriaethau fynychu cyfarfod gyda chynrychiolwyr Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru/Llywodraeth Cymru'n gynharach heddiw. Nodwyd y canlynol:
  - Consensws BGLI i ddeialog parhaus gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar y cyd gyda chynrychiolwyr y 4 BGLI arall yn Ngogledd Cymru;
  - Ystyriwyd y trafodaethau yma'n gerbyd arwyddocaol wrth geisio clirdeb parthed statws, mandad a threfniadau llywodraethu'r byrddau rhanbarthol.

## 3. CYFLWYNIAD I'R BWRDD – Ynys Ynni: Wylfa Newydd

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd gan Gareth Hall, Rheolwr Prosiect Ynys Ynni/Wylfa Newydd ar oblygiadau datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd a'i arwyddocad i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Canolbwyntiodd y cyflwyniad i'r Bwrdd ar arwyddocad y datblygiad arfaethedig i Ogledd Orllewin Cymru ac yn arbennig yr agweddau canlynol:

- Sefyllfa unigryw yn y Ddeyrnas Unedig – gyda'r datblygiad arfaethedig y buddsoddiad mwyaf yn hanes Cymru;
- 'Roedd nifer o ddatblygiadau cysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd – dad gomisiynu'r Wylfa cyfredol, y datblygiad *Land & Lakes*, Morlais (cynlluniau prosiect ar gyfer ynni wrth Gaergybi), rhaglen ddatblygu'r Grid Cenedlaethol;
- Amserlen: 5 mlynedd i ddatblygu'r safle, adeiladu dros gyfnod o 4 blynedd gyda'r cynhyrchydd 1af wrth ei waith erbyn 2025;

- **Camau Nesaf**: symud ymlaen i Gam 2 yn y broses gynllunio. Y materion canlynol yn ganolog i'r ymdrechion:
  - ❖ Arddangos ymagwedd gyd-gysylltiedig;
  - ❖ Ymgysylltu gyda'r y cyhoedd a'r 3<sup>ydd</sup> Sector;
  - ❖ Defnyddio strwythurau, rhwydweithiau a phrosesau cyfredol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac eraill;
  - ❖ Osgoi dyblygu ymdrech;
  - ❖ Wynebu oblygiadau adnoddau.
- **Blaenoriaeth Gyntaf**: asesiad o'r dangosfwrdd cyfredol a gwybodaeth sylfaenol fel man cychwyn i ddiweddarau'r holl ffynonellau gwybodaeth/data er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn. Byddai hyn yn cynnig sylfaen i asesu effeithiau a buddiannau cynigion Horizon – gyda golwg ar wneud y mwyaf o'r buddiannau. Cynigwyd y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol weithredu fel cerbyd i adnabod ac yna llenwi bylchau gwybodaeth/data a hefyd gwneud y mwyaf o unrhyw themau fyddai'n groes dorri.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig yn ystod y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad:

- I'r effeithiau andwyol yn sgîl datblygiad Wylfa alinio gyda meysydd 3 Blaenoriaeth Allweddol y BGLI (Pobl Hŷn, Teuluedd Bregus, Cymunedau Cynaliadwy/Adfywio Cymunedol) ynghyd â'r 3 Galluogwr yn sylfaen iddynt (Technoleg, Iaith a Diwylliant ac Ymgysylltu);
- Yr angen am glirdeb ynghylch y pwyntiau trosoledd wrth negydu gyda'r datblygwyr – wedi'i danlinellu gyda sylfaen dystiolaeth gadarn gyda'r datblygwyr yn cynnig rhyw gymaint o gyfrifoldeb cymdeithasol. Amcan sylfaenol – sicrhau'r buddiannau mwyaf i gymunedau lleol yr ardal;
- Pell gyrrhaeddol: yr angen i geisio ymrwymiad/gwarant gan y datblygwyr y byddai canran o'r swyddi a greuwyd ar gyfer pobl leol;
- Yr angen i ychwanegu pwysau trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i adeiladu ar y llwyfan wedi'i osod hyd yma gan Gyngor Sir Ynys Môn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Rhaglennu trafodaethau parhaus gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol dros y misoedd nesaf – gyda golwg ar sicrhau synergedd, osgoi dyblygu a gwneud y mwyaf o'r buddiannau/lleiau'r effeithiol andwyol ynghlwm wrth Wylfa Newydd;**
- **Sicrhau cydweithio (ac osgoi dyblygu) rhwng Swyddfa Brosiect Ynys Ynni/Wylfa Newydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wrth baratoi sylfaen dystiolaeth gadarn i danlinellu cam datblygu nesaf Wylfa Newydd a ffrydiau gwaith Blaenoriaethau Allweddol y BGLI/asesiad anghenion llesiant (Bil Cenedlaethau'r Dyfodol).**

#### 4. MEYSYDD BLAENORIAETH ALLWEDDOL Y BGLL

Gofynnwyd i bob arweinydd BGLI ar gyfer y Blaenoriaethau Allweddol ddarparu diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar gynnydd y timau prosiect wrth iddynt gytuno ar y cynigion lefel uchel – mewn paratoad ar gyfer cymeradwyaeth y BGLI ar 31 Mawrth, 2015.

##### 4.1 Blaenoriaeth Allweddol 1 – Pobl Hŷn:

- *BA1 Pobl Hŷn* – rhoddodd yr Athro Jerry Hunter, Prifysgol Bangor wybod i'r Bwrdd ynglŷn â'r consensws o'i sefydliad y dylid canolbwytio ymdrechion ar faterion yn ymwneud â dementia;
- Cynghorwyd y Bwrdd gan Andrew Jones nad oedd cyfarfod o'r Tîm Prosiect wedi'i gynnal hyd yma ond rhoddwyd cyflwyniadau i gyfarfodydd o'r Fforymau Sirol yng Ngwynedd ac Ynys Môn (Ionawr, 2015). 'Roedd barn wedi'i amlygu o'r trafodaethau hyn mai'r cam nesaf ddylai gynnwys hwyluso cyd-gyfarfod o'r ddau Fforwm ynghyd ag aelodau perthnasol eraill y BGLI er mwyn adnabod y cynigion o flaenoriaeth i'w hystyried gan y Bwrdd ar 31/03/15. 'Roedd dyddiadau bellach wedi'u pennu ar gyfer y sesiwn thematig Vanguard – Pobl Hŷn (9 & 10 Mawrth, 2015); gofal heb ei gynllunio/ rhyddhau oedd y thema;
- Cafwyd trafodaeth gan y Bwrdd ynglŷn â'r angen i sicrhau synergedd, osgoi dyblygu/creu heini ychwanegol i'r strwythurau "partneriaethol" cyfredol. 'Roedd angen go iawn i hwyluso trafodaeth er mwyn adnabod pa agweddau y byddai modd eu cyfarch yn well gyda'n gilydd;

##### 4.2 Blaenoriaeth Allweddol 2 – Teuluoedd Camweithredol:

- *BA2 Teuluoedd Camweithredol* – Cynghorwyd y Bwrdd gan Peter Newton y cynhaliwyd un cyfarfod o'r Tîm Prosiect. Gwelwyd trafodaethau cychwynnol gan y Tîm yn adnabod yr angen i fapio ymyrraethau cyfredol fel cam cyntaf (adnabod y ddarpariaeth gyfredol, beth oedd yn ychwanegu gwerth go iawn, bylchau yn y ddarpariaeth gyfredol/ardaloedd daearyddol); bod iechyd meddwl yn thema gyson a fyddai'n debygol o'i chynnwys ymhlith y cynigion lefel uchel er ystyriaeth y Bwrdd ar 31/03/15;
- 'Roedd cryn drafodaeth wedi bod yngylch y gor-ddibyniaeth ar arian grant i gyllido ymyrraethau buan/arbedol gyda chyllid craidd gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ymateb i alw cynyddol ar wasanaethau (ymatebol);
- 'Roedd consyrn a thrafodaeth sylweddol wedi dilyn ynghylch teitl y ffrwd gwaith – teuluoedd bregus/dibynnol yn opsiwn amgen;
- Byddai angen adlewyrchu canlyniad y sesiwn thematig Vanguard (10 & 11 Mawrth, 2015) yn y cynigion lefel uchel i'w cyflwyno i'r BGLI ar 31/03/15.

##### 4.3 Blaenoriaeth Allweddol 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol:

- *BA3 Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol* – 'Roedd y Tîm Prosiect wedi cwrdd a rhestr hir o gynigion wedi'u hystyried (cyfanswm o 12). Rhoddwyd gwahoddiad i bartneriaid gyflwyno syflaen dystiolaeth/achos newid a hynny oddi mewn i'r fframwaith a osodwyd gan y BGLI. 'Roedd barn

gychwynnol gan arweinydd BGLI mai cyfres o gynigion gwahanol ydoedd yn hytrach nag un cynnig sylweddol gyda'r potensial i gyflawni newid trawsnewidiol graddfa uchel;

- 'Roedd potensial i'r ffrwd gwaith yma gasglu ynghyd gweddillion o'r 2 Flaenoriaeth Allweddol arall ac 'roedd yn adlewyrchiad o'r agenda genedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Byddai cyfarfod nesaf y Tîm Prosiect yn ceisio adnabod ymyrraethau cyfredol gan bartneriaid a oedd gyda'r amcan o adeiladu cymunedau cynaliadwy;
- Ni fu'r economi'n ran o'r trafodaethau hyd yma – byddai trafodaeth yn digwydd rhwng cynrychiolwyr Gwynedd/Ynys Môn ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda golwg ar adnabod unrhyw fylchau posibl er ystyriaeth gan y BGLI.

#### **PENDERFYNWYD:**

- **BA1 Pobl Hŷn** – nodwyd bod yna grwpiau mewn bodolaeth yn blaenoriaethu pobl hŷn gan weithio ar brosiectau penodol. Fel cam cyntaf, cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal gyd gyfarfod o'r 2 Fforwm Sirol gyda gwahoddiad i bartneriaid eraill perthnasol y BGLI. Amcan: adnabod y rhestr hir gychwynnol o gynigion lefel uchel er ystyriaeth gan y Bwrdd ar 31 Mawrth, 2015  
[Andrew Jones/Jerry Hunter i weithredu].
- **BA2 Teuluoedd Camweithredol** – nodwyd y byddai cynigion tebygol yn cynnwys mapio trefniadau cyfredol er mwyn adnabod y croes gyfeirio allai fodoli ar gyfer cydweithio/rhesymoli a'r bylchau tebygol yn y gwasanaeth. 'Roedd iechyd meddwl hefyd yn gynnig tebygol o flaenoriaeth;
- Nodwyd sylwadau ynglŷn â theitl cyfredol y ffrwd gwaith a gwahoddwyd y Tîm Prosiect i gynnig teitl arall.
- **BA3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol** - nodwyd y gwahoddwyd partneriaid i gyflwyno rhagor o wybodaeth i dystiolaidd cynigion cychwynnol.
- Nodwyd yr angen i'r arweinwyr BGLI gyflwyno'r cynigion lefel uchel gan bob ffrwd gwaith y Blaenoriaethau Allweddol i'r Bwrdd ar 31 Mawrth, 2015 er ystyriaeth/cymeradwyaeth.

#### **5. RHAGLEN DDATBLYGU'R BWRDD**

Gwnaed cyflwyniad gan Andrew Jones, BIPBC / Iechyd Cyhoeddus ar ddamcaniaeth newid ar raddfa sylweddol a'r themau esblygol gan bwysleisio'r angen am ddealltwriaeth o ddiwyllianau ein gilydd ac angen i greu rhaglen ddatblygu i ymgysylltu arweinwyr uwch eraill a oedd yn hanfodol i fusnes y BGLI.

Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig yn ystod y drafodaeth ddilynodd y cyflwyniad:

- 'Roedd angen i'r Bwrdd lynu wrth yr egwddor o sicrhau fod pobl Gwynedd ac Ynys Môn yn ganolig i'r holl drafodaethau;
- Cyflawni i bobl Gogledd Orllewin Cymru oedd hefyd yn egwyddor sylfaenol o gonsyrn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol – y Bwrdd yn gallu tystioli cynnydd i ddinasyddion yr ardal;
- A oedd yr holl dwls/sgiliau/galluoedd gan y BGLI i wireddu ei uchelgais a chyfeiriad strategol?

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Parhau gyda thrafodaethau ynghlych sut y dylid galluogi'r BGLI i ddatblygu a thyfu ymhellach – gyda golwg ar wireddu ar ei uchelgais a chyfeiriad strategol (trafodaeth bellach yng nghyfarfod y BGLI ar 31/03/15);**
- **Nodi'r angen i gynnal adolygiad o'r strwythur partneriaethol cyfredol – gan sicrhau bod y strwythur yn addas i bwrpas i symud ffrydiau gwaith y Blaenoriaethau Allweddol ymlaen dros y 2 flynedd nesaf.**

#### **6. BLAEN RAGLEN WAITH Y BGLL**

Cyflwynwyd – adroddiad ar gadernid blaen raglen waith cyfredol y BGLI ar gyfer 2014/15 a drafft ar gyfer 2015/2016 yn dilyn camau cychwynol a gymerwyd gan y Bwrdd dros y 6 mis diwethaf i weddnewid ei hunan. Nodwyd yr adolygydd y Blaen Raglen Waith i adlewyrchu trafodaethau a phenderfyniadau gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod diwethaf (a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2014).

#### **RESOLVED:**

- **Gyda'r ychwanegiad canlynol, cadarnhawyd bod y Blaen Raglen Waith yn ddigonol ac yn gadarn fel sylfaen i drafodaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hyd at ddiwedd y flwyddyn (Mawrth, 2016):**
  - a. **Adolygiad Blynyddol 2015/2016 o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Cynllun Integredig Sengl – y broses adolygu i hefyd gynnwys ystyriaeth o ddigonolrwydd y strwythur partneriaethol cyfredol wrth gefnogi'r BGLI i symud ymlaen gyda'i Flaenoriaethau Allweddol/siwrnai drawsnewid.**
- **Cadarnhau cadernid drafft cyntaf y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2015/16 a hynny'n ddarostyngedig i drafodaethau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y ffrydiau gwaith Blaenoriaethau Allweddol (31/03/15).**

#### **7. AWDIT O'R BWRDD GWASANAETHAU LLEOL**

Cyflwynwyd – diweddariad ar lafar ar yr awdit diweddar o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

#### **PENDERFYNWYD nodi:**

- Cwblhawyd gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) rhwng diwedd Tachwedd, 2014 - Ionawr, 2015;
- Byddai SAC yn cyflwyno ei adroddiad drafft i gyfarfod nesaf y Bwrdd (Mawrth, 2015).

## 8. FFRWD GWAITH CRAFFU'R BGLL

Cyflwynwyd – adroddiad ar gynnydd hyd yma wrth ddatblygu'r cyd drefniadau craffu arfaethedig fel sylfaen i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Y prif egwyddor oedd ystyried sut y gallem ddatblygu trefniadau craffu cadarn ymhellach, yn cynnig lefel briodol o her i'r Bwrdd a hynny ar draws y ddwy Sir i adlewyrchu mandad y BGLI. 'Roedd Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol 2009 yn gosod allan y disgwyliad ar y BGLI:

*"...local authorities should have in place effective scrutiny processes to ensure local democratic accountability for partnership actions..."*

Yn sgîl cefnogaeth Aelodau Etholedig (Cyngorau Sir Ynys Môn a Gwynedd) yn ystod Medi, 2014, aeth gwaith rhagddo i ddatblygu cyd drefniadau craffu ar gyfer y BGLI. Noder isod grynodedeb o ddatblygiadau hyd yma:

- Sefydlwyd Grŵp Prosiect Tasg a Gorffen aml-asiantaethol. 'Roedd yr aelodaeth hyd yma'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdodau Lleol. Negydwyd cynrychiolaeth o'r 3<sup>ydd</sup> Sector gan y Grŵp yn ddiweddar;
- Datblygwyd papur opsiynau llawn yn amlinellu modelau cyd graffu posibl er ystyriaeth gan Aelodau Etholedig y ddau Awdurdod Lleol;
- Mewnbyn a mentora wedi'i negydu gan y Ganolfan Graffu Gyhoeddus (CfPS) a hynny trwy gydol y broses o ddatblygu'r opsiynau cyd graffu i Ynys Môn a Gwynedd;
- Ystyriaeth o'r cynigion craffu ar y cyd gan bwyllgorau craffu'r ddau Awdurdod Lleol yn gynharach yn y Flwyddyn.

### PENDERFYNWYD:

- Nodi cynnydd hyd yma wrth ddatblygu cyd drefniadau craffu fel sylfaen i waith y BGLI;
- Yn sgîl trafodaethau, cefnogi'r cynnig i sefydlu PANEL craffu ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn;
- Nodi'r rhagolygon ymarfer gorau ac arwyddocad cenedlaethol y ffrwd gwaith yma.

## 9. TRAFODAETH ROWND BWRDD – CYNLLUNIAU ARIANNOL PARTNERIAID: 2015/16

Gwahoddwyd y Bwrdd Iechyd i rannu eu cynlluniau ariannol ar gyfer 2015/16. Noder isod grynodedeb o'r cynlluniau rheiny:

- 2014/15 - y Bwrdd Iechyd 80m (6.3%) yn fyr o'r gyllideb syflaenol;

- Costau staffio (costau staff asiantaeth er mwyn cynnal rotas diogel) a hefyd costau gweithgaredd nad oedd bosib ei osgoi oedd yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau;
- Mis 9 (2014/15) rhagwelwyd bwlch o £27m a oedd yn sialens sylweddol i'r Bwrdd Iechyd;
- 2015/16 – rhagolygon yn awgrymu sefyllfa ariannol yr un mor heriol i'r Bwrdd Iechyd gyda rhagamcan o fwch o odduetu 6% yn y gyllideb sylfaenol. Byddai'r sefyllfa hon yn golygu'r angen i'r Bwrdd ystyried y patrwm cyfredol o wasanaethau gofal iechyd.

**PENDERFYNWYD:**

- **Nodi gan ddiwygio cynlluniau ariannol cyfredol partneriaid ar gyfer 2015/16 i adlewyrchu sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.**

**10. RHANNU ARBENIGEDD AR DRAWS PARTNERIAID**

Gofynnwyd cwestiwn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan Dilwyn Williams parthed yr egwyddor o rannu sgiliau arbenigol/arbenigedd ar draws partneriaid.

**PENDERFYNWYD:**

- **Fel cam cyntaf, trefnu trafodaeth Gwynedd, Ynys Môn a Phrifysgol Bangor i eglurhau meysydd posibl ar gyfer cydweithio mewn meysydd o gymysgedd sgiliau arbenigol;**
- **Cynnwys y potensial am brosiectau cydweithio fel eitem sefydlog ar raglen y Bwrdd.**

**11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD** nodi'r trefniadau a waned i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 31 Mawrth, 2015 yn yr Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor, Gwynedd.

**Eitemau Rhaglen:**

- **Ffrydiau gwaith y 3 Blaenoriaeth Allweddol – ystyried cynigion drafft lefel uchel;**
- **Awdit SAC o'r BGLI – cyflwyniad gan SAC ar yr adroddiad awdit drafft;**
- **Adolygiad Blynyddol 2014/15 – ystyriaeth bellach;**
- **Cerrig Milltir Allweddol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – er ystyriaeth;**
- **Ffrwd gwaith Cyd Graffu'r BGLL;**
- **Blaen Raglen Waith 2015/16 – er adolygiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20yp